CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanWilliams@ynysmon.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: EN010007
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 17th Ebrill 2019

Ms Kay Sully,
The Planning Inspectorate,
National Infrastructure Planning,
Temple Quay House,
2, The Square,
Bristol,
BS1 6NP

Annwyl Kay,

**Archwiliad DCO Wylfa Newydd EN010007 – Cyflwyniad ar gyfer Dyddiad Cau 10**

Mae CSYM wedi adolygu cyflwyniad Horizon ar gyfer Dyddiad Cau 9 ac mae'n cyflwyno'r sylwadau a ganlyn:

## 1. Strategaeth Fesul Cyfnod – REP9-025

Fel y dywedwyd yn Nyddiad Cau 9, mae'r Ymgeisydd a CSYM wedi bod mewn trafodaethau parhaus ynghylch y strategaeth fesul cyfnod. O ganlyniad, mae CSYM a PNH wedi cytuno ar y newidiadau isod. I bob pwrpas, mae'r newidiadau wedi cael eu gwneud mewn ymateb i aliniad y proffil gweithwyr gyda'r strategaeth fesul cyfnod ac er mwyn sicrhau bod y camau lliniaru yn eu lle ar yr adeg briodol os bydd y gwaith o baratoi a chlirio'r safle yn cael ei wneud ar yr un pryd â'r datblygiad. Mae'r newidiadau isod yn sicrhau mai dyma'r achos a bod yr effeithiau cyffredinol yn parhau gyda'r Datganiad Amgylcheddol.

- Ffigwr 2-2 newydd i gael ei roi mewn sy'n dangos proffil y gweithwyr adeiladu drwy gydol y cyfnod adeiladu.
- Diweddariad i Ffigwr 2-1 i symud y dyddiadau cyflawni diwethaf ar gyfer y cyfleuster Parcio a Theithio a'r Ganolfan Logisteg ymlaen un chwarter.
- Diweddariad i Dabl 2-1 er mwyn diweddaru'r sbardunau i'r P&R:
- Ychwanegu cyfeiriad i'r gwaith fesul cyfnod - Cyfnod 1 (600), Cyfnod 2 (600), Cyfnod 3 (cydbwysedd)
- Darparu sbardun ar gyfer cyflawni Cyfnod 3 cyn i nifer y gweithwyr sy'n teithio i brif safle WNDA fynd dros 3,000. Nid yw hyn yn cynnwys gweithwyr yn ardaloedd eraill y prosiect, megis gwaith ar yr A5025.
- Mewn perthynas â chyflawni'r Ganolfan Logisteg a'r Cyfleuster Parcio a Theithio'n gynt, ychwanegu sylwadau y bydd angen i'r ymgymerwr gyflwyno ceisiadau'n amserol ar gyfer cyflawni gofynion ac i hwyluso hyn, bydd CSYM, ble mae angen hynny'n cytuno i'r rhain gael eu cyflwyno'n gyflymach ac ar y blaen i'r amserlen a ragwelir dan atodlen 19. Mae'n rhaid i'r naill barti â'r llall ymgynghori'n dda yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno ceisiadau er mwyn hwyluso hyn.

**Adran 106**

O ganlyniad i'r trafodaethau ar y strategaeth fesul cyfnod a nodir uchod, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r a106 hefyd, sef:

- diwygio'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r Cyfraniad tuag at Lety Gweithwyr (Gwella Capasiti) fel bod rhandaliad cyntaf y taliadau perthnasol i CSYM, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy yn 30% o'r cyfanswm (yn hytrach na 10%) a bydd yn cael ei dalu 12 mis cyn Cychwyn (yn hytrach na chyn Gweithredu);
- diwygio'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r Cyfraniad tuag at Addysg, fel bod rhandaliad cyntaf y taliadau perthnasol i CSYM, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy yn 30% o'r cyfanswm (yn hytrach na 10%) a bydd yn cael ei dalu 12 mis cyn Cychwyn (yn hytrach na chyn Gweithredu);
- diwygio'r Cyfraniad tuag at Drafnidiaeth fel bod y rhandaliad cyntaf yn cael ei dalu 6 mis cyn Cychwyn (yn hytrach na chyn Gweithredu);
- diwygio'r cyfan o'r 10 Cyfraniad Ariannol yn Atodlen 15 (sy'n gysylltiedig â Pharatoi a Chlirio'r Safle) fel bod y rhain yn cael eu talu 12 mis cyn Cychwyn (yn hytrach na chyn Gweithredu);
- sicrhau, oni bai y cytunir fel arall gyda'r Cyngor, na fedr y Datblygwyr gychwyn Prosiect DCO Wylfa Newydd yn gynharach na 12 mis o'r dyddiad y telir y cyfraniadau uchod;
- sicrhau na fedr y Datblygwr ond rhoi rhybudd o'i fwriad i gychwyn y Gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle dan y Caniatâd TCPA lle mae caniatâd o'r fath wedi gael ei ryddhau gan y Cyngor ar ddyddiad derbyn rhybudd o'r fath. Rhaid rhoi'r rhybudd 12 mis cyn y dyddiad y bwriedir cychwyn ar y gwaith.

## 2. DCO – Atodlen 19 – Ffioedd ar gyfer Cyflawni Gofynion

- Atodlen 19 y DCO - Ffioedd

Yn dilyn cyflwyno'r DCO diwygiedig erbyn Dyddiad Cau 9, mae trafodaethau rhwng yr Ymgeisydd a CSYM ar lefel briodol y ffioedd ar gyfer y gwaith sydd angen ei wneud i gyflawni amodau wedi symud ymlaen. Mae hyn wedi arwain at newid ymagwedd o ffi 'fesul gofyniad' yn seiliedig ar ardal a'i gapio, i ymagwedd gymysg o gyllid blynyddol i ddarparu adnodd mewnol yn CSYM ac adennill costau mewnbwn allanol ble mae angen hynny. Mae'r partïon bellach wedi cyrraedd cytundeb ar yr atodlen honno. Yn awr felly, bydd yr Ymgeisydd yn talu ffi flynyddol i'r Cyngor a fydd yn cael ei defnyddio i ddarparu amser a chymorth swyddogion cynllunio a rheoli prosiect ac i gefnogi'r defnydd o adnodd mewnol arbenigol megis swyddogion priffyrdd. Ar gyfer gofynion mawr, bydd y partïon hefyd yn cytuno ar daliad tuag at gost sicrhau mewnbwn allanol ble mae hynny'n angenrheidiol er mwyn penderfynu'n iawn ar y cais cyflawni gofynion; er enghraifft, nid oes gan CSYM benseiri tirlunio mewnol neu arbenigwyr goleuo a bydd angen caffael mewnbwn ar y materion hynny felly gan ymgynghorwyr allanol a chanddynt y cymwysterau priodol.

Er bod CSYM yn derbyn bod y cytundeb hwn wedi ei gyrraedd yn hwyr yn y broses, mae'n gofyn i'r Awdurdod Archwilio dderbyn y diwygiadau i Atodlen 19 oherwydd bod y diwygiadau hynny'n cael ei cefnogi gan y Cyngor a'r Ymgeisydd ac yn rhoi sicrwydd y gellir diogelu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni gofynion y DCO.

- Atodlen 19 DCO – Amserlenni

Mae CSYM yn nodi'r anghytundeb sy'n parhau rhwng y partïon ar amserlenni addas ynghylch ystyried rhyddhau gofynion. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi fod CNC wedi dwyn sylw at y pryder na fydd modd iddynt ddarparu ymatebion fel ymgynghorai o fewn y cyfnod sy'n cael ei ganiatáu ar hyn o bryd.

Mae CSYM yn cefnogi cais CNC am i ymgyngoreion gael 28 diwrnod llawn i ymateb. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r cyfnodau penderfynu fod yn hirach na'r hyn sy'n cael ei gynnig gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer mân ofynion, fel bod gan CSYM gyfle ystyrlon i ystyried a thrafod yr ymatebion a gafwyd gan ymgyngoreion. Felly, mae CSYM yn glynu wrth ei safiad y dylai cyfnodau penderfynu fod yn 8 wythnos ar gyfer mân ofynion ac yn 12 wythnos ar gyfer gofynion mawr (16 wythnos pan mae angen gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol) a rhaid i'r rhaglen gynnwys y gallu i ohirio unrhyw gyfnod yn unol â rheoliadau EIA ar gyfer Seilwaith Cynllunio.

## 3. Ymateb Horizon i Gais yr Awdurdod Ymchwilio am Wybodaeth Bellach (REP9-006)

**R17.2.17 -** *Atodlen 1 – Datblygiad Cysylltiedig Arall*
*(c) "manteisiol (expedient) " – A fedr yr Ymgeisydd ddarparu unrhyw enghreifftiau o awdurdod barnwrol (mewn cyd-destunau eraill) a fyddai'n rhoi rhyw arwydd o'r cyfyngiadau y gellid eu priodoli i'r gair "manteisiol (expedient)". [REP8- 004 DCO Cofrestr o Faterion sy'n Parhau i fod Angen Sylw]*
*(d) Efallai y bydd CSYM yn dymuno cyflwyno sylwadau.*

Mae CSYM yn nodi ymateb yr ymgeisydd i'r cwestiwn hwn, sef y dylid priodol i 'manteisiol' ei ystyr arferol; mae CSYM yn cytuno bod yr ymagwedd yn cael ei chefnogi gan gyfraith achos ond yn nodi mai ehangder yr ystyr arferol o'r gair 'manteisiol' sy'n peri pryder i'r Cyngor. Mae CSYM yn nodi bod y diffiniad a roddwyd yn cynnwys 'ffafriol i fantais' – mae hynny'n rhoi sgôp anferthol i'r Ymgeisydd wneud unrhyw beth i'w fantais ei hun ac yn ei gwneud yn anymarferol i geisio rheoli unrhyw waith drwy reolau cynllunio.

Oherwydd sgôp y darpariaethau eraill yn y rhan hon o atodlen 1, mae CSYM yn dweud eto nad yw'r Ymgeisydd wedi gwneud unrhyw achos cadarnhaol dros fod angen y pŵer hwn mewn perthynas â gwaith nad yw eisoes wedi'i gynnwys ac yn wyneb ffeithiau ac amgylchiadau'r DCO hwn. Nid yw'r Ymgeisydd wedi cyflwyno unrhyw ddadleuon argyhoeddiadol ynghylch pam fod pŵer mor eang sy'n creu sgôp mor fawr ar gyfer y posibilrwydd o wneud gwaith nad oes manylion neu ddisgrifiad ar ei gyfer, yn angenrheidiol iddynt. Nid yw CSYM yn derbyn bod y ffaith bod y geiriad hwn wedi cael ei gynnwys mewn DCOs eraill yn golygu ei fod yn dderbyniol yn y sefyllfa hon ble byddai'r Ymgeisydd yn creu pŵer eang iawn i wneud gwaith amhenodol dros nifer o safleoedd mewn gwahanol leoliadau a than wahanol amgylchiadau.

Mae cynnwys y gair 'manteisiol' hefyd yn gwneud y penderfyniad ynghylch a oes angen cymryd camau gorfodaeth gan CSYM yn anodd ac o'r herwydd, nid yw'n gwarchod cymunedau'r Ynys. Mae CSYM yn parhau i wrthwynebu i gynnwys y gair 'manteisiol (expedient)' yn p).

**R17.9.1** – *Sylwadau ar y cynnig bod Safle'r Campws, er yn ddatblygiad dros dro, yn un mawr, amlwg ac o'r herwydd, y gallai fod mantais sicrhau y byddai'r broses ddylunio'n elwa o gyngor gan Gomisiwn Dylunio Cymru o fewn y Datganiad Dyluniad a Mynediad?*

Fel y dywedwyd yn Nodyn Ôl-gwrandawiad CSYM ar Dai a Llety i Weithwyr Adeiladu [REP7-014 paragraff 3.2.3], byddai CSYM yn gofyn i Horizon drafod dyluniad a gosodiad Safle'r Cais gyda CSYM cyn cyflwyno'r dyluniad manwl dan Ofyniad WN19 y DCO. Bydd hyn yn sicrhau y bydd yr effeithiau gweledol yn cael eu lliniaru i'r graddau y mae hynny'n bosibl drwy ddefnyddio lliwiau, gweadau a deunyddiau priodol.

Oherwydd bod yr amserlen ar gyfer cyflawni gofynion yn dynn, nid yw CSYM yn credu y byddai'n ddoeth ymgynghori gyda Chomisiwn Dylunio Cymru wedi i'r dyluniad ar gyfer Campws y Safle gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo dan Ofyniad WN19. Byddai CSYM yn llwyr gefnogol petai Comisiwn Dylunio Cymru (ac ymgynghorwyr statudol eraill yn ôl yr angen) yn cael eu dwyn i mewn i gyfrannu

yn gynnar yn y broses er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn adlewyrchu'n llawn yr Egwyddorion Dyluniad a gadarnhawyd yn y Datganiad Dyluniad a Mynediad a'r pryderon a godwyd gan gydranddeiliaid eraill.

Mae CSYM yn cydnabod yr ymgynghorwyd â Chomisiwn Dylunio Cymru yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno'r cais, fodd bynnag ni chafodd unrhyw fanylion am y dyluniad manwl eu cynnwys bryd hynny. Felly, byddai CSYM yn cefnogi i Gomisiwn Dylunio Cymru gael ei ddwyn i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r cais i gyflawni Gofyniad WN19 a hynny er cyflawnder

## 4. Rheol 17 – Cais am wybodaeth bellach

**R17.2.2.1** – *Ymateb i'r cynnig am Femorandwm o Ddealltwriaeth gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â C17.2.6 (REP9-006)*

Ers Dyddiad Cau 9, mae CSYM wedi ceisio cael dealltwriaeth pam fod PNH, mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig R17.2.6 yn gofyn yn awr am newidiadau pellach i'r DCO, sydd nid yn unig yn gofyn i PNH fod yn rhan o'r MoDd rhwng CSYM a CNC ond hefyd yn dweud y byddant yn ei ddrafftio ac yn ei gylchredeg i'r cyrff cyhoeddus "ar gyfer sylwadau". Mae CSYM yn glynu wrth y safiad a nodwyd yn glir yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, sef nad oes, ac na fu erioed unrhyw fwriad i'r Ymgeisydd fod yn rhan o'r MoDd hwn a fydd yn nodi'r modd y bydd dau gorff cyhoeddus sydd â rolau a dyletswyddau statudol, yn gweithredu.

Nid yw CSYM yn cytuno ei bod yn briodol i gytundeb o'r fath gael ei benderfynu drwy gyflafareddiad. Mae CSYM a CNC ill dau yn ymwybodol o, ac yn sensitif i anghenion y naill a'r llall o safbwynt statudol, polisi a phroses – ni fedrir dweud yr un peth o angenrheidrwydd am gwmni preifat nad yw'n gweithredu dan yr un cyfyngiadau. Ni fyddai'n briodol i gwmni preifat ddrafftio a cheisio gorfodi drwy gyflafareddiad, cytundeb sydd, ym marn y corff cyhoeddus, yn gwrthdaro â'u gofynion.

Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a gynigir gan CSYM a CNC rhyngddynt yn weinyddol o ran natur a'r cyfan y mae'n ei wneud yw nodi sut a phryd y byddant yn rhannu gwybodaeth, yn trafod materion ac yn uwch-gyfeirio pryderon. Nid oes unrhyw rôl briodol i'r Ymgeisydd yn y cytundeb gweinyddol hwnnw rhwng y cyrff cyhoeddus. O'r herwydd, mae CSYM yn gwrthwynebu cynnwys paragraff (4) yn atodlen 19 a'r bwriad i ychwanegol paragraff (5) am y rhesymau a nodir yn yr ateb hwn.

Er mwyn darparu sicrwydd pellach fod CSYM a CNC wedi sefydlu perthynas weithio effeithiol, caiff Memorandwm o Ddealltwriaeth drafft ei gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth. O ran pryd y bydd hwn yn cael ei gwblhau'n derfynol, rhaid i'r datblygwr, yn unol ag Atodlen 19, roi 6 mis o rybudd i'r Cyngor a CNC cyn cyflwyno unrhyw geisiadau i gyflawni gofynion. Bydd y cyfnod hwn yn caniatáu i'r MoDd hwn gael ei gwblhau gan gynnwys y manylion cyfredol, perthynas ar y pryd.

**R17.2.2.5** – *Erthygl 74 y – tir gweithredol i ddibenion Deddf 1990*
*a. Pa ddatblygiad fyddai modd ei gyflawni drwy hawliau datblygu a ganiateir petai'r tir yn cael ei ystyried fel tir gweithredol?*
*b. Sut ac ym mhle dylai'r drafft o'r DCO gael ei ddiwygio i oresgyn y mater hwn?*

a) Mae pryder CSYM gyda chategoreiddio'r cyfan o'r tir sy'n rhan o'r gorchymyn fel tir gweithredol yn ymwneud â'r pwerau eang iawn a ganiatawyd i ymgymerwyr trydan dan Ddosbarth B Rhan 15 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Lloegr) 2015 oherwydd byddai'n berthnasol i dir y tu allan i safle'r cais yn unig.

   Mae'r dosbarth hwnnw'n caniatáu i ymgymerwyr trydan wneud gwaith datblygu ar gyfer cynhyrchu trydan i ddibenion eu hymgymeriad gan gynnwys yn (f), "unrhyw waith datblygu a

wneir yn, ar, dros neu dan tir gweithredol yr ymgymeriad". Mae erthygl 74 yn golygu bod yr holl dir sy'n rhan o'r gorchymyn yn cael ei ystyried fel tir gweithredol. Mae CSYM yn cytuno'n llwyr y dylai hawliau datblygiad a ganiateir fod ar gael i ymgymerwyr trydan ar brif safle cynhyrchu'r orsaf. Fodd bynnag, mae'n amhriodol i'r hawliau hynny fod ar gael ar safleoedd datblygiadau cysylltiedig sydd eu hangen ar gyfer adeiladu'r orsaf yn hytrach na chynhyrchu trydan neu ddibenion yr ymgymeriad, sef cynhyrchu trydan. Dylai natur y defnydd a wneir o safleoedd y datblygiadau cysylltiedig hyn, gan gynnwys y ffaith bod nifer o'r rhain yn rhai dros dro, arwain yr hawliau datblygiad a ganiateir sydd ar gael, e.e. dylai'r Ganolfan Logisteg elwa o unrhyw hawliau a fyddai ar gael er gyfer unrhyw ddefnydd dosbarthu dros dro arall, nid cynhyrchu trydan.

Caiff y pŵer hwn dan Ddosbarth B Rhan 15 ei gyfyngu gan baragraff B1. Mae'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud â maint y datblygiad yn hytrach na'i fath, e.e. yn achos (f) pŵer a ddyfynnir, nid yw'r cyfyngiadau ond yn gwahardd:
(i) codi adeilad, neu ail-adeiladu neu altro adeilad lle byddai ei ddyluniad neu ei edrychiad allanol yn cael ei effeithio'n sylweddol, neu
(ii) gosod neu godi, drwy ychwanegu at, neu amnewid unrhyw gyfarpar neu beiriannau sydd dros 15 metr mewn uchder neu uchder unrhyw gyfarpar neu beiriannau sy'n cael eu hamnewid, p'un bynnag yw'r mwyaf.

O'r herwydd, gellir defnyddio'r hawl datblygiad a ganiateir hon i newid gosodiad, lefelau, tirlunio, goleuadau neu gyfluniad yr adeiladau, neu ganiatáu gosod cyfarpar o faint sylweddol, neu ganiatáu unrhyw fater arall nad yw'n cael ei reoli gan y cyfyngiadau hyn.

b) Diwygio Erthygl 74 y DCO i gyfyngu'r defnydd a wneir o'r DCO fel caniatâd cynllunio penodol i ddibenion a264 Deddf 1990 i'r prif safle'n unig. Gellir gwneud hyn drwy gynnwys cyfyngiad i'r WNDA (argymhellir bod y testun coch yn cael ei ychwanegu):

Tir gweithredol i ddibenion Deddf 1990
74. O fewn Cyfyngiadau Gorchymyn Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd fel y'u nodir yn WN0902-HZDCO-RLB-DRG-00002, WN0902-HZDCO-RLB-DRG-0003, WN0902-HZDCO-RLB-DRG-0004, WN0902-HZDCO-RLB-DRG-0005 and WN0902-HZDCO-RLB-DRG-0006, bydd y caniatâd datblygu a roddir drwy'r Gorchymyn hwn yn cael ei drin fel caniatâd cynllunio penodol i ddibenion adran 264(3)(a) Deddf 1990 (achosion ble bydd tir yn cael ei drin fel tir nad yw'n dir gweithredol i ddibenion y Ddeddf honno).

**R17.2.7.1** – *Darparu datganiad ar y cyd yn gosod allan y safiad y cytunwyd arno mewn perthynas â chais CSYM i ail-ddarparu lle troi yn y gilfan gerllaw'r fynedfa i WNDA a godwyd yng nghyflwyniad CSYM i D9 (tudalennau 9/10). Yn benodol, gall CSYM sôn beth fyddai eu safiad petai penderfyniad yn cael ei wneud i beidio ag ail-ddarparu'r lle troi.*

Mae CSYM yn deall fod y Cyngor a PNH wedi cytuno ynglŷn â'r cynnig i ail-ddarparu ardal droi yn y gilfan gerllaw'r ardal fynediad arfaethedig i WNDA fel y soniwyd am hynny yng nghyflwyniad CSYM i D9 (REP9-031).

- **Y rhesymeg ar gyfer ail-ddarparu ardal droi**

O ganlyniad uniongyrchol i weithredu'r trefniadau mynediad wrth y gyffordd i WNDA, collir y lle troi sydd ar gael ar hyn o bryd i gerbydau. Mae cynllun Trefniadau Cyffredinol Horizon WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00063 Adolygiad 4.0 (2.6.1 WNDA – Cynlluniau Safle'r Orsaf Bŵer) yn nodi y bydd y gyffordd tua'r de o'r gilfan yn cael ei defnyddio gan osgoi'r angen felly i ail-ddarparu lle troi ar gyfer cerbydau. Ar hyn o bryd, oherwydd gwelededd gwael wrth y gyffordd ddeheuol, mae blociau pafin gwenithfaen esgynedig wedi cael eu gosod i atal cerbydau rhag defnyddio'r gyffordd hon (gweler

isod). Ym marn CSYM, byddai'n amhriodol, er budd diogelwch ar y ffyrdd, i ddarparu cyffordd yn y lleoliad hwn.




Er mwyn lliniaru ar gyfer colli'r man troi i gerbydau, mae CSYM yn gofyn am gael darparu ardal droi newydd (amgen) i gerbydau gerllaw'r gilfan bresennol fel rhan o'r trefniadau wrth y fynedfa i WNDA (y mae PNH yn cytuno iddynt). Mae'r lleoliad arfaethedig y lle troi newydd i gerbydau ar dir sydd ym mherchenogaeth PNH ac mae o fewn ffiniau'r llinell goch. Nid yw CSYM yn gweld bod unrhyw ddewis ac eithrio'r hyn sydd wedi cael ei gynnig eisoes o ran ail-ddarparu'r lle troi (fel y cytunwyd yn flaenorol rhwng y naill barti a'r llall).

- **Sicrhau bod ardal y lle troi yn cael ei chynnwys yn y broses DCO**

Mae anghytundeb rhwng PNH a CSYM am y modd y dylid diogelu'r ardal droi fel rhan o'r broses DCO.

Yn unol â chyflwyniad REP9-031 CSYM, byddai angen ymestyn y llinell biws doredig (llinell ganol y briffordd arfaethedig) ar y Cynllun Hawl Dramwy (**REP8-024** tudalen 33) er mwyn sicrhau bod modd i ardal y lle troi gael ei chyflwyno fel priffordd gyhoeddus.

Er mwyn sicrhau bod yr ardal droi arfaethedig hon yn cael ei chynnwys yn y broses DCO, mae'n rhaid i'r cynlluniau perthnasol gan gynnwys y Gwelliannau oddi ar Lein i Brifffordd yr A5025, Adran 9 – Aliniad Cyffredinol Arfaethedig y Ffordd Fynediad i'r Orsaf Bŵer WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00063 Adolygiad 4.0 (2.6.1 WNDA – Cynlluniau Safle'r Orsaf Bŵer) **(REP8-027)** a'r Gwelliannau Oddi ar Lein i Brifffordd yr A5025 Adran 9 – Hawl Dramwy wrth Gyffordd y Ffordd Fynediad i'r Orsaf Bŵer WN0902-HZDCO-ROW-DRG-00030 (2.4 Adolygiad 3.0 i'r Cynlluniau Hawliau Tramwy) **(REP8-024)** gael eu hadolygu i gynnwys y cynnig hwn er mwyn caniatáu i'r DCO ei gymeradwyo.

Mae PNH wedi dweud nad oes digon o amser ar gael i ddiwygio'r lluniadau a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newid hwn ac y gellir cynnwys yr ardal droi hon yn y dyluniad a fydd yn cael ei gymeradwyo adeg cyflwyno'r dyluniad manwl. Mae CSYM yn pryderu na fydd hwn yn un o Ofynion y DCO ac na fydd o'r herwydd yn cael ei ddiogelu o fewn y DCO.

Mae CSYM yn deall y byddai newid y lluniadau i gynnwys y lle troi hwn ar yr adeg benodol hon yn anodd, fodd bynnag, er mwyn diogelu'r ail-ddarpariaeth, mae CSYM am i ofyniad WN1(3) gael ei ddiwygio drwy ychwanegu eitem newydd, sef (h) yn mynnu bod cynllun yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo fel a ganlyn:

(h) Bydd cynllun ar gyfer darparu'r lle troi i gerbydau a fydd yn ffurfio rhan o'r briffordd gyhoeddus yn y gilfan ger y fynedfa i Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd – cynllun a fydd yn cynnwys manylion am ddyluniad y lle troi, pryd y fydd yn cael ei gyflawni, ynghyd ag eglurhad ynghylch y modd y bydd yn cael ei chyflwyno fel priffyrdd gyhoeddus, y modd y bydd yn cael ei chategoreiddio a'r mesurau rheoleiddio traffig (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau cyflymder neu gyfyngiadau aros) yn cael ei roi yn ei le mewn perthynas â'r lle troi cyn iddo gael ei agor ar gyfer ei ddefnyddio gan y cyhoedd.

Gellir gweld yr egwyddor gyffredinol o ail-ddarparu'r ardal droi yn y darluniad a ddarperir yn Atodiad 2.

Bydd fersiynau Cymraeg yn cael eu cyflwyno unwaith y bydd y cyfieithiadau ar gael.

**Yn Gywir / Yours Sincerely**

[redacted]

**DYLAN J. WILLIAMS**
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service - Regulation and Economic Development

## Annex 1 – DRAFT MoU submitted for Information

**DRAFT**

**MEMORANDUM OF UNDERSTANDING**

This Memorandum of Understanding is made between the Isle of Anglesey County Council (“IACC”) and Natural Resources Wales (“NRW”).

This Memorandum of Understanding relates to the application for a development consent order made by Horizon Nuclear Power for the proposed Wylfa Newydd, which project includes both landward and marine works. This Memorandum sets out how the parties propose to work in partnership when dealing with elements of the project which either include both landward and marine elements or which are located in the inter-tidal area.

For the purposes of this Memorandum:

“DCO” means the Wylfa Newydd (Nuclear Generating Station) Order 20[ ]

‘inter-tidal’ means the area between Mean Low Water Springs and Mean High Water Springs.

“Work” means any part of the authorised development set out in schedule 1 of the DCO

**1 KEY PRINCIPLES**

The parties have agreed the following key principles:

1.1 Nothing in this Memorandum of Understanding shall fetter the statutory powers and/or duties of either IACC or NRW.

1.2 IACC shall be consulted by NRW on any application made to NRW to discharge any requirement under the DCO which includes any Work in the inter-tidal area or which extends landward over MHWS.

1.3 NRW shall be consulted by IACC on any application made to IACC to discharge any requirement under the DCO which includes any Work which extends seaward over MHWS.

1.4 Whereas it is agreed that both parties have legitimate interests in the inter-tidal area and that the IACC as local planning authority would have development control responsibilities for this area;

(a) NRW shall give serious and meaningful consideration to any representations made by IACC on issues which fall within the planning authority remit, including but not limited to visual impact, landscape impact, impact of lighting (as it pertains to visual impact, amenity and dark skies), working hours, onshore amenity and human health and wellbeing including noise impacts, dust and air quality and impact on the historic environment.

(b) Where the IACC has raised an objection to any application for discharge covered by this Memorandum, and where NRW is minded to approve the application, NRW shall seek to use all reasonable endeavours to meet with the IACC (and where applicable the undertaker) to discuss the application under consideration prior to issuing any decision.

1.5 Where IACC are considering any application for discharge of a requirement for any Work landward of MHWS which extends into the intertidal area, and NRW has raised an objection to approval of such an application, and where IACC is minded to approve the application, IACC shall seek to use all reasonable endeavours to meet with the NRW (and where applicable the undertaker) to discuss the application under consideration prior to issuing any decision.

## 2 WORKING PRACTICES

The parties have further agreed the following in order to efficiently carry out their relevant roles while having regard to the agreed key principles:

2.1 Key points of contact of Wylfa Newydd issues

IACC and NRW shall provide and keep up to date a key contact point for the other in relation to Wylfa Newydd issues. The initial contact details are set out in this section but can be superseded in writing at any time where either party advises the other of a change.

| IACC Key contact details: | NRW Key contact details: |
|---|---|
| Role | Role |
| Address | Address |
| Phone | Phone |
| Email | Email |

**Correspondence and official communication between IACC and NRW**

2.2 Agreement to engage in joint consultation prior to submission of any application

The parties agree that they shall endeavour to engage appropriately in any relevant pre-application consultation or discussion offered by the undertaker of the Wylfa Newydd project prior to the submission of any application for discharge.

2.3 Agreed response times to respond to formal consultations

The parties note the timescales for approval under the process set out in Schedule [19] of the DCO. In order to allow the discharging party to comply with those timescales the parties shall use all reasonable endeavours to:

(a) provide the other with a copy of any application received as soon as reasonable practical following receipt; and

(b) respond to any formal consultation as soon as reasonably practicable but in any event by the date for submission of consultation responses.

Further the parties agree that;

(c) when providing a copy of any application the discharging authority shall when providing a copy of an application received, use reasonable endeavours to advise the consulted party on the dates by which consultation responses are sought, the date by which a decision is required under schedule [19] and any constraints that party has in complying with that (for example that internal approval processes require a set number of working days);

(d) the consulted party shall use reasonable endeavours to notify the discharging authority of incomplete or inadequate information in any application as soon as practicable following such identification.

2.4 Information sharing

Other than where precluded by statute, ,or where the parties do not consider it lawful or appropriate to do so, the parties shall share information with each other as often and in so far is necessary to facilitate the undertaking of the obligations set out in this agreement. In particular the parties shall send to each other as soon as reasonably practical a copy of any application received, copies of responses made by any other consultee (where requested), and a copy of any draft conditions proposed to be attached to any approval for comment prior to the making of any decision,

DRAFT

## 3 RESOLVING CONCERNS

3.1 In the event that a dispute arises between the Parties relating to the interpretation or application of this MoU it shall be referred to the escalation contacts named below for resolution.

3.2 The escalation contacts shall seek to agree between them the appropriate course of action to resolve the dispute.

3.3 The escalation contacts are:

| IACC | NRW |
|---|---|
| Role | Role |
| Address | Address |
| Phone | Phone |
| Email | Email |

Signed for and on behalf of IACC

Signed for and on behalf of NRW

DRAFT

## Annex 2 - Proposed Re-Provision of Turning Head Area

